

Cyngor Cymuned Ysgubor y Coed Ysgubor y Coed Community Council

Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 9 Tachwedd 2016

2016/35. Presennol: Cynghorwyr Swanson (yn y gadair), Goodman, Hustings a Thomas. Bu'r clerc yn gweinyddu.

36. Ymddiheuriadau: Cynghorydd Griffiths, Jenkins a Toland. Cynghorydd Sir ap Gwynn

37. Cofnodion y cyfarfod blaenorol: Derbyniwyd ac arwyddwyd cofnodion y cyfarfod ar 14 Medi.

38. Datganiadau o ddiddordeb:

Dim

39. Materion yn codi:

i. Nodwyd e-bost gan Dr Ian Taylor. Bydd cyfarfod ar 19/11/16 i drafod ymgyrchu am lwybr troed / seiclo rhwng Machynlleth ac Aberystwyth. Bydd Cynghorwyr Swanson a Goodman yn mynd.

Pwynt gweithredu: Cynghorwyr Swanson a Goodman i fynd i gyfarfod ar 19/11/16.

ii. Mae Mr David Anning, RSPB, yn edrych i mewn i'r brydles ar gyfer y lle chwarae. Trafodwyd cyfrifoldeb am y coed yn y lle chwarae. Nodwyd bod angen gwirio bod y coed yn ddiogel cyn cael y brydles.

iii. Nodwyd bod Mrs Lillian Hughes wedi ysgrifennu i Network Rail am y ffaith eu bod wedi cyfyngu ar fynediad i bobl anabl i'r orsaf.

iv. Adroddwyd nad oedd y broblem gyda sbwriel yn y maes parcio yn rhy ddrwg ar hyn o bryd. Nodwyd gohebiaeth gan Mr Gerwyn Jones, Cyngor Sir Ceredigion, a oedd yn hysbysu'r Cyngor na fyddent yn casglu gwydr ar ymyl y ffordd yn fuan.

v. Roedd Cynghorydd Goodman wedi siarad â PC Tipper am y cynllun 'Cadw Llygad ar Gyflymder yn y Gymuned'. Mae angen 4 i 5 o wirfoddolwyr. Nodwyd bod neges wedi'i hanfon i'r gymuned. Bydd y Clerc yn ychwanegu hysbyseb i'r wefan a Facebook.

40. Cyllid:

i. Penderfynwyd ystyried ceisiadau am gymorth ariannol gan Gymorth Cancer

MacMillan a Nyrys Marie Curie yn y cyfarfod ym mis Ionawr 2017.

ii. Cytunwyd i wneud y taliadau canlynol: £120 (RH Restoration); £48 (SLCC).

iii. Nodwyd bod y taliad canlynol wedi'i wneud: £60 (glanhau i gysgodfeydd bws)

iv. Nodwyd bod y taliad canlynol wedi'i dderbyn: £150 (CADW)

v. Trafodwyd adroddiad yr archwilydd ar archwiliad 2015-16. Cytunwyd i gynhyrchu adroddiadau ariannol manylach ar bapur yn y flwyddyn sy'n dod.

41. Gohebiaeth a Chyfathrebu:

i. Nodwyd bod y Clerc yn ymddiswyddo. Penderfynwyd hysbysebu'r swydd yn y Cambrian News.

ii. Nodwyd bod y ffynnon a'r pwmp wedi'u difrodi gan weithlu'r Cyngor wrth iddynt ladd gwair ar ymyl y ffordd. Penderfynwyd y byddai Clerc yn ysgrifennu i Asiantaeth y Cefnffyrdd a'r Cyngor Sir i gwyno am y difrod.

Pwynt Gweithredu: Clerc i ysgrifennu i'r Asiantaeth y Cefnffyrdd a'r Cyngor Sir i gwyno am y difrod.

ii. Derbyniwyd a nodwyd y dogfennau canlynol gan Un Llais Cymru:

a. Cymru'n Cofio

- b. Gwobrau Cenedlaethol Arfer Arloesol Un Llais Cymru 2017
 - c. Comisiwn Seilwaith Cenedlaethol Cymru - bydd y Clerc yn edrych i weld a yw'n berthnasol i lwybrau troed.
 - ch. Ymgynghoriad ar Strategaeth newydd y Gymraeg Llywodraeth Cymru
 - d. Arolwg o safonau cenedlaethol ar gyfer gwaith pob Cyngor Iechyd Cymuned.
- ii. Derbyniwyd a nodwyd y dogfennau canlynol gan Gyngor Sir Ceredigion:
 - a) Cyfarfod ymgynghorol 2016 - bydd y Clerc yn mynd
 - b) Aseiad Strategol Trosedd ac Anhrefn Ceredigion 2017
 - iii. Derbyniwyd a nodwyd y dogfennau canlynol gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda:
 - a. Grŵp Cydweithredol Gofal Iechyd y Canolbarth
 - b. Gwasanaethau Cleifion Allanol
 - iv. Nodwyd adroddiad blynyddol drafft Panel Annibynnol Cymru ar Gydabyddiaeth Ariannol.
 - v. Nodwyd *Clerk and Councils Direct* (Tachwedd 2016).
 - vi. Nodwyd ymgynghoriad ar Gynllun Corfforaethol Drafft ar gyfer 2017-2022 Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru.
 - vii. Nodwyd cyfarfod cyffredinol blynyddol Age Cymru Ceredigion
 - viii. Nodwyd Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol Ecodyfi.

42. Unrhyw Fater Arall:

- i) Nodwyd bod y sied yn Ffwrnais Dyfi sy'n cynnwys yr hysbysfwrdd ar glo a does dim allwedd gan y Cyngor. Gofynnwyd i'r Clerc i ysgrifennu i CADW am agor y sied.
- ii) Derbyniwyd llythyr gan drigolion yn y gymuned am gwch Cynghorydd Toland sydd wedi parcio ar ymyl y ffordd ger Cysgod y Foel yn nodi ei fod yn ei gwneud yn anodd i geir pasio. Cytunwyd i ysgrifennu at Gynghorydd Toland i ofyn iddo ei symud.
- iii) Derbyniwyd llythyr yn cwyno am arwyddion a phosteri uniaith Saesneg ar yr hysbysfyrddau'r Cyngor. Nodwyd bod pob arwydd a phoster a gynhyrchir gan y Cyngor yn ddwyieithog ers nifer o flynyddoedd. Fodd bynnag, derbynir arwyddion a phosteri gan sefydliadau ac unigolion allanol nad ydynt yn ddwyieithog. Cytunwyd i roi arwydd ar yr hysbysfyrddau yn nodi y dylai arwyddion fod yn ddwyieithog a chynnig gwasanaeth cyfieithu os oes angen.

43. Dyddiad y Cyfarfod Nesaf: 11 Ionawr 2017